# Sut mae dyfarniadau'r llys sirol yn effeithio ar eich cofnod credyd

Os ydych yn ceisio am gredyd, gallai gael ei wrthod a ni fyddwch yn gwybod pam. Gallai hyn ddigwydd pan fod **dyfarniad llys sirol** wedi cael ei wneud yn eich erbyn. Caiff dyfarniad ei wneud oherwydd fe wnaeth benthyciwr:

- gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn yn y llys sirol, a
- phenderfynodd y llys bod arian yn ddyledus gennych, ac
- mae'r person wedi gwneud cais i'r llys am **orchymyn llys** sy'n dweud bod yn rhaid i chi dalu'r arian.

Cyn gynted â bod dyfarniad llys sirol yn cael ei wneud yn eich erbyn, caiff ei gofnodi ar y **Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon**. Pan fod credydwr yn penderfynu p'un ai i roi benthyg arian i chi neu beidio, byddant fel arfer yn gwirio eich sefyllfa ariannol gydag **asiantaeth archwilio credyd**. Bydd gan yr asiantaeth archwilio credyd fanylion am eich dyfarniad llys sirol a gymerwyd o'r Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Dyma'r rheswm efallai pam y gwrthodwyd rhoi credyd i chi.

Fel arfer, byddwch yn cael gwybod am y dyfarniad llys sirol, ond weithiau nid yw hyn yn digwydd. Er enghraifft, efallai y bydd papurau'r llys yn cael eu hanfon at y cyfeiriad anghywir. Os hoffech wybod p'un ai bod dyfarniad llys wedi cael ei wneud yn eich erbyn, gallwch edrych ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon, neu gofynnwch am ganiatâd i weld copi o'r wybodaeth sydd gan yr asiantaethau archwilio credyd.

## Sut i ddarganfod os yw dyfarniad llys sirol wedi cael ei wneud yn eich erbyn

Gallwch weld y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon drwy'r post neu mewn person. Gallwch ofyn drwy e-bost. Mae yna ffi o £4.00.
Am fanylion cyswllt y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon, gweler gwaelod y daflen ffeithiau hon.

Gallwch hefyd ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gan yr asiantaeth archwilio credyd y defnyddiodd eich benthyciwr pan wnaethoch geisio am gredyd. Mae hyn yn costio £2. Mae rhai asiantaethau archwilio credyd yn cynnig gwell adroddiad, yn ogystal â'r fersiwn sylfaenol. Mae'n bosib y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol neu ymateb cyflymach i chi, ond fe fydd yn costio mwy. Fodd bynnag, os gofynnwch iddynt, mae'n rhaid i'r asiantaeth archwilio credyd ddarparu'r holl wybodaeth sydd ganddynt amdanoch am y ffi sylfaenol o £2.

Am fanylion cyswllt y tair asiantaeth archwilio credyd mwyaf, gweler gwaelod y daflen ffeithiau hon.



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

## Sut i newid cofnod ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon

Mae pob cofnod sydd wedi bod ar y Gofrestr am dros chwe blynedd yn cael ei ddinistrio. Mae hyn yn berthnasol i gofnodion dyledion sydd wedi cael eu talu a rhai sydd heb gael eu talu. Fodd bynnag, os nad ydych am aros chwe blynedd, mae'n bosib, mewn rhai amgylchiadau penodol, y gallwch wneud cais i ddileu neu newid cofnod ar y Gofrestr.

**Nid eich dyled chi ydyw**
Os ydych yn credu na ddylech dalu'r ddyled, efallai y gallwch ofyn i'r llys ail-agor yr achos yn eich erbyn. Gallwch wneud hyn dim ond os allwch ddangos bod gennych reswm cyfreithiol dilys dros beidio â thalu'r ddyled. I wneud hyn, y cam cyntaf yw gofyn i'r llys i **osod y dyfarniad o'r neilltu**. Cewch ofyn i'r llys am hyn naill ai drwy lenwi'r ffurflen N244, neu drwy lythyr. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gorfod talu ffi am hyn. Y cynharaf y byddwch yn gwneud hyn, y mwyaf llwyddiannus y byddwch yn debygol o fod.

Os yw'r llys yn cytuno gosod eich dyfarniad llys sirol o'r neilltu, cewch gyfle i gyflwyno'ch achos. Os yw'r llys yn cytuno nad ydych yn gyfrifol am y ddyled, fe fydd yn dileu'r cofnod ohoni sydd ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Fodd bynnag, gallai hyn gymryd rhwng tair a phedair wythnos i'w wneud.

**Rydych yn talu'r ddyled o fewn un mis o ddyddiad y dyfarniad llys sirol**
Os ydych yn talu'r ddyled yn llawn o fewn un mis o ddyddiad y dyfarniad llys sirol, gallwch wneud cais i ddileu'r cofnod sydd ar y Gofrestr. Bydd angen tystysgrif arnoch o'r llys sy'n dweud eich bod wedi talu'r ddyled. Mae hyn yn costio £15 ond mae modd ei roi heibio neu ei leihau os ydych ar incwm isel. Pan gaiff cofnod ei ddileu, mae pob asiantaeth archwilio credyd yn cael eu hysbysu a byddant yn dileu unrhyw wybodaeth am y dyfarniad llys sirol oddi ar eich cofnod.

**Rydych yn talu'r ddyled mwy nag un mis ar ôl dyddiad y dyfarniad llys sirol**
Os ydych yn talu'r ddyled yn llawn ar ôl un mis o ddyddiad y dyfarniad llys sirol, gallwch wneud cais i newid y cofnod sydd ar y Gofrestr. Bydd angen tystysgrif arnoch o'r llys i ddweud eich bod wedi talu'r ddyled. Mae hyn yn costio £15 ond mae modd ei roi heibio neu ei leihau os ydych ar incwm isel. Ni fydd y cofnod yn cael ei ddileu, ond fe fydd nodyn gyferbyn ag ef yn dweud fod y ddyled wedi cael ei thalu (gelwir hyn yn **wedi'i fodloni**).

Pan gaiff cofnod ei newid, mae pob asiantaeth archwilio credyd sydd â gwybodaeth amdanoch yn cael eu hysbysu. Bydd yr asiantaethau archwilio credyd yn newid cofnodion eu hun. Byddant yn cadw gwybodaeth am y dyfarniad llys sirol am chwe blynedd o ddyddiad y dyfarniad, ond bydd eu cofnodion yn dangos fod y ddyled wedi cael ei thalu. Mae'n bosib y bydd hyn yn ei wneud yn haws i chi gael credyd.


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

## Cael cwmni trwsio credyd i glirio eich cofnod dyled

Mae cwmnïau trwsio credyd yn hawlio eu bod yn gallu clirio cofnodion dyled. Byddant fel arfer yn gwneud hyn drwy wneud cais i ganslo dyfarniad llys sirol. Maen nhw'n codi tâl am hyn a gallai fod yn ddrud iawn. Dylech fod yn wyliadwrus iawn ynghylch defnyddio cwmni trwsio credyd. Maen nhw'n annog pobl i wneud datganiadau ffug er mwyn clirio eu cofnodion dyled. Mae'n bosib bod yna ddulliau rhatach eraill y gallwch eu defnyddio. Cewch hyd i fwy o wybodaeth am gwmnïau trwsio credyd ar wefan Cyngor ar Bopeth o dan yr adran gredyd - gweler isod.

## Manylion cyswllt defnyddiol

**Cofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon**
Rhif ffôn: 020 7380 0133
Gwefan: www.trustonline.org.uk

**Asiantaethau archwilio credyd**

Experian Limited
Rhif ffôn: 0870 241 6212
Gwefan: www.experian.co.uk

Equifax plc
Rhif ffôn: 0870 010 0583
Gwefan: www.equifax.co.uk

Call Credit Check
Rhif ffôn: 0870 060 1414
Gwefan: www.callcreditcheck.co.uk

## Cymorth ychwanegol

**Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth**
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

**Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu**

- Credyd
- Cymorth gyda dyled
- Taflen ffeithiau credyd
- Yr hyn sy'n digwydd pan ydych yn mynd i'r llys am eich dyledion
- 
- 

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.**

**Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.**

**Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Ionawr 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.**



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr